# Yr Athro Susan Jebb OBE, PhD, FRCP (Hon), FMedSci – Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yma ceir amlinelliad o hanes proffesiynol Aelodau ein Bwrdd a manylion am unrhyw fuddiannau busnes a allai fod ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.



**Tanysgrifiwch gael negeseuon gan ein Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**

[Tanysgrifiwch i gael negeseuon gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr dros e-bost neu ewch ati i ddiweddaru eich dewisiadau tanysgrifio.]

Mae'r Athro Susan Jebb yn un o brif wyddonwyr y wlad, yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Meddygol ac yn Gymrawd Anrhydeddus Coleg Brenhinol y Meddygon. Mae ei hymchwil ddiweddar wedi canolbwyntio ar drin gordewdra ac ymyriadau i annog deiet iach a chynaliadwy.

Mae gan Susan ddiddordeb hirsefydlog mewn trosi tystiolaeth wyddonol yn bolisi, a hi oedd y Cynghorydd Gwyddoniaeth i adroddiad Foresight Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth ar ordewdra yn 2007. Mae hi'n gynghorydd i'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol. Yn y gorffennol mae wedi cadeirio gr?p cynghori arbenigol traws-lywodraethol ar ordewdra (2007–2011), rhwydwaith bwyd bargen cyfrifoldeb yr Adran Iechyd (2011–2015) a phwyllgorau cynghori iechyd y cyhoedd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2013-2018). Dyfarnwyd OBE iddi yn 2008 am ei gwasanaethau i iechyd y cyhoedd.

Mae Susan wedi'i chyflogi'n rhan-amser gan Brifysgol Rhydychen ochr yn ochr â'r rôl fel Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

## Buddiannau Personol

- Dim

## Swyddi ymgynghorol a/neu gyflogaeth uniongyrchol

- Cyflog: Prifysgol Rhydychen
- Partner yn J&L Farms

## Rolau heb dâl

- Aelod o'r Gr?p Cynghori ar Sgyrsiau Bwyd y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad

## Gwaith am ffi

- Dim

## Cyfranddaliadau

- Dim

## Clybiau a sefydliadau eraill

- Aelod, Cymdeithas Astudiaethau Gordewdra

## Buddiannau personol eraill

- Dim

## Buddiannau nad ydynt yn bersonol

- Priod: Uwch Bartner J&L Farms

## Cymrodoriaethau

- Cymrawd, Academi'r Gwyddorau Meddygol
- Cymrawd er Anrhydedd, Coleg Brenhinol y Meddygon

## Cefnogaeth anuniongyrchol

- Dim

## Ymddiriedolaethau

- Dim

## Tir ac eiddo

- Dim

## Penodiadau cyhoeddus eraill

- Aelod, Gr?p Cyfeirio Arbenigol Rhaglen Atal Diabetes Genedlaethol GIG Lloegr
- Aelod, Gr?p Cyfeirio Rhaglen Llwybr i Leddfu Diabetes Math 2 GIG Lloegr
- Aelod, Gr?p Cyfeirio Arbenigol Gordewdra GIG Lloegr

## Buddiannau eraill nad ydynt yn rhai personol

- Dim